**Adroddiad i:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Chwefror 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

**Teitl:** Dileu Ardrethi Annomestig

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddileu ardrethi annomestig (trethi busnes) ar gyfer cwmnïau ac unigolion lle na all camau adennill barhau am eu bod naill ai wedi mynd yn ansolfedd neu wedi rhedeg i ffwrdd. Mae'r balansau sy'n ddyledus wedi gorfod cael eu cyfrif yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ar ffurflenni statudol i Lywodraeth Cymru ers tro.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnir am benderfyniad i ddileu ôl-ddyledion ardrethi annomestig na ellir eu hadennill.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Dileu'r gwerthoedd na ellir eu hadennill a ddangosir yn Nhabl 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) dan ddeddfwriaeth i weinyddu a chasglu Trethi Busnes ar ran y Llywodraeth Cymru. Mae bil blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn darparu 10 rhandaliad misol i fusnesau dalu. Bydd methu gwneud taliad yn arwain at roi nodiadau atgoffa, rhybuddion terfynol a gwysion i fynychu Llys Ynadon.

Yn y llys Ynadon gofynnodd CSDd am orchmynion atebolrwydd yn yr achos isod ac fe'i rhoddwyd. Mae'r gorchymyn atebolrwydd yn rhoi awdurdod i Sir Ddinbych gymryd camau adennill mwy trylwyr. Y diwrnod ar ôl rhoi atebolrwydd, bydd yr holl gyfrifon yn cael eu rhoi i'r Asiant Gorfodi i'w casglu oni bai bod y busnes wedi gwneud trefniant ymlaen llaw ac yn talu.

Mae'r achos yn ymwneud â Grabal Alok UK Ltd, a oedd yn masnachu o dan deitl Store 21 yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn, y Rhyl. Dioddefodd y cwmni, sydd â siopau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, gwymp mewn masnach, gan olygu ei fod wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Ers hynny, mae'r gweinyddwyr wedi ceisio rhyddhau gwerth yr asedau a chadw cynifer o siopau â phosibl ar agor. Mae cwmni newydd bellach yn rhedeg y siop yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn.

Er y bu rhywfaint o lwyddiannau ar draws y DU, daeth yn amlwg nad oedd modd arbed y cwmni a chafodd ei ddiddymu ym mis Ebrill 2017 a'i ddirwyn i ben ar 10 Gorffennaf 2017. Roedd yna ddyledion sylweddol yn ddyledus ac asedau cyfyngedig i wneud unrhyw daliadau yn erbyn y dyledion hyn. Yn sgil hyn, rhoddwyd gwybod i'r holl gredydwyr ansicredig, gan gynnwys CSDd, na fyddai unrhyw daliad difidend yn cael ei wneud. Mae'r symiau a fydd yn cael eu dileu i'w gweld isod:

Tabl 1: Crynodeb o achosion o ddileu

| Cwmni | Blwyddyn Ariannol | Swm |
|---|---|---|
| Grabal Alok UK Ltd | 2016/17 | £47,221.72 |
| | 2017/18 | £13,163.35 |
| **Cyfanswm** | | **£60,385.07** |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Nid yw hyn yn berthnasol gan ei fod yn ofyniad deddfwriaethol i reoli incwm a dyledion fel rhan o weinyddiaeth ardrethi annomestig.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Caiff holl incwm Ardrethi Annomestig ei drosglwyddo i'r Gronfa Genedlaethol mae unrhyw ddyledion drwg yn cael eu bodloni gan y gronfa, fel y cyfryw nid oes unrhyw gost i CSDd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**
Nid oes effaith yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn gan fod ardrethi annomestig yn cael eu casglu ar ran Llywodraeth Cymru gan bob Cyngor yng Nghymru ac nid yw'n effeithio ar ein preswylwyr.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Fel y nodwyd uchod, nid oes yna bosibilrwydd o gwbl o adennill yr holl ddyledion ardrethi annomestig. Fe ddilynwyd y broses gywir ac mae pob opsiwn wedi cael ei ddihysbyddu. Fel y nodwyd uchod, nid oes yna gost uniongyrchol i CSDd gan fod incwm Ardrethi Annomestig ei drosglwyddo i'r Gronfa Genedlaethol mae unrhyw ddyledion drwg yn cael eu bodloni gan y gronfa.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Drwy brosesu prydlon achosion ar gyfer eu dileu rydym yn lleihau'r effeithiau llif arian i CSDd, o ran taliadau Ardrethi Annomestig i'r Gronfa Genedlaethol a lleihau ein lefelau cyfraniad, yn unol â'r ddyled gasgladwy.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae'r pŵer i wneud y penderfyniad yn cael ei gynnwys yn Rheoliadau Ariannol Sir Ddinbych o dan Adran 25.